Funded by UK Government
Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU
FFYNIANT BRO
LEVELLING UP
Busnes@ gwynedd.llyw.cymru

# Cronfa Trawsffurfio

## Cefnogaeth i fusnesau Gwynedd adfer a datblygu

## Gwybodaeth i ymgeiswyr a chanllaw i'r gronfa

CYNGOR GWYNEDD

## ADRAN A – GWYBODAETH ALLWEDDOL

**Beth yw Cronfa Trawsffurfio?**
Cymorth ariannol o rhwng £25,000 a £250,000 i helpu busnesau Gwynedd adfer a datblygu, sefydlogi a pharatoi ar gyfer y dyfodol. Y nod yw galluogi busnesau i gynyddu elw unai trwy arbedion neu gynyddu incwm.

**Pwy sy'n gymwys?**
Gall busnesau bach neu ganolig o Wynedd gyflwyno cais am arian o Gronfa Trawsffurfio. Gallent fod yn fusnesau newydd neu'n rhai wedi sefydlu ers tro.

Er mwyn cynorthwyo gymaint o fusnesau a posib, ni allwn dderbyn ceisiadau gan busnesau sydd wedi derbyn, neu wedi'u cymeradwyo i dderbyn:
-Mwy na £25,000 o gronfa Cymunedau Mentrus cynllun ARFOR
-Arian uniongyrchol o Gronfa Ffyniant Gyffredin: Gwynedd neu Cronfa Ffyniant Gyffredin: Gogledd Cymru

Rhaid i bencadlys y busnes fod yng Ngwynedd. Eich pencadlys yw'r eiddo lle mae rhan helaeth o weithgaredd eich busnes yn cymryd lle.

Mae'r math o fusnesau canlynol yn gymwys:
- unig fasnachwr
- partneriaeth cofrestredig
- cwmni cyfyngedig (gan cynnwys cwmnïau nad ydynt yn dosbarthu elw)

I gadarnhau statws y busnes bydd rhaid darparu Cyfeirnod Unigryw y Trethdalwr (UTR) CThEM (HMRC) neu rif cwmni ynghyd â chopi o ddatganiad banc diweddar wrth gyflwyno cais i'r Gronfa.

Gallwn gefnogi busnesau sy'n cwrdd ag o leiaf dau o'r meini prawf canlynol:
- cyflogi 250 neu lai (yn cynnwys y perchennog / perchnogion)
- gyda llai na £18 miliwn ar ei fantolen (balance sheet)
- trosiant (cyfanswm gwerthiant) blynyddol o dan £36 miliwn yn fusnes bach / canolig

Os yw'r busnes yn rhan o fusnes arall, neu wedi ei gysylltu'n gyfreithiol â busnes arall, bydd Cyngor Gwynedd yn ystyried yr amgylchiadau unigol cyn penderfynu a yw'n gymwys i dderbyn cefnogaeth.

Mae'n rhaid i unrhyw fusnes sy'n derbyn cymorth fod wedi'i leoli yng Ngwynedd. Yn achos unig fasnachwyr / partneriaethau bydd safle gweithredu'r busnes yng Ngwynedd (ystyrir cartref y perchennog yn leoliad y busnes os nad yw'n meddu ar safle penodol).

**Faint o arian sydd ar gael?**
Mae rhwng £25,000 a £250,000 o gymorth ar gael.
Mae'r gronfa yn cynnig cymorth o hyd at 70% o gyfanswm y costau cymwys nodwyd o fewn y cais. Felly, bydd yn ofynnol i unrhyw gais fod ar sail o leiaf £3,570 o gostau cymwys.

Rydym yn disgwyl i chi gyfrannu o leiaf 20% o gostau'r prosiect o arian preifat, sef cynilion, neu benthyciad – mi fydd angen i chi dangos prawf fod yr arian yma ar gael i chi cyn allwn ni asesu'ch cais

Mae'r grant yma yn cael ei ariannu'n rhannol trwy Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU. Petaech yn dymuno defnyddio arian grant arall fel rhan o'r 10% sy'n weddill o gostau eich prosiect, mi fydd angen i chi dangos tystiolaeth bod y cyllidwr yn fodlon i chi ddefnyddio'r arian fel arian cyfatebol ar gyfer nawdd Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU

**Sut fydd ceisiadau llwyddiannus yn cael eu dewis?**
I lwyddo bydd rhaid i gais ddod gan fusnes cymwys ac ar gyfer costau addas fel sy'n cael eu disgrifio yn y canllaw hwn.

Mi fydd rhaid i chi ddarparu cynllun busnes manwl, gall eu hasesu gan arbenigwr– gallwch darparu cynllun busnes mewn unrhyw fformat, ond gwelwch y daflen ynghlwm am yr isafswm wybodaeth y byddwn ni angen.

Rydym yn disgwyl i'r effaith disgwyliedig ar eich busnes fod yn gymesur i'r swm yr ydych yn ymgeisio amdano. Er enghraifft, disgwylir i geisiadau am symiau mwy bod ar gyfer datblygiadau busnes fydd yn cyflwyno effaith parhaus, graddfa fawr a hirdymor i'ch busnes, er lles pobl Gwynedd.

**Wrth asesu'r cais bydd Cyngor Gwynedd yn ystyried:**
A fydd y grant yn helpu'r busnes i:
- warchod swydd(i) presennol neu yn creu swydd(i) newydd?
- cynyddu incwm neu arbed costau?
- lleihau ei ôl-troed carbon?
- bod yn fwy gwydn neu i dyfu?

A yw'r busnes yn fodlon ymrwymo i:
- dalu'r Cyflog Byw Gwirioneddol os yn cyflogi staff (dros 18 oed) erbyn Rhagfyr 2024 fan bellaf (nid yw'n ofynnol sicrhau achrediad y Sefydliad Cyflog Byw);
- gwblhau asesiad o'u defnydd o'r Gymraeg drwy law Comisiynydd y Gymraeg cyn derbyn taliad o'r Gronfa ac i gynyddu eu defnydd o'r iaith gan weithio tuag at dderbyn 'Cynnig Cymraeg' y Comisiynydd.

Nodwch fod gan Cyngor Gwynedd disgresiwn llwyr i gefnogi cais i'r Gronfa ac mae penderfyniadau y Cyngor yn derfynol. Bydd penderfyniadau Cyngor Gwynedd yn amodol ar y budd rhagwelir ac yn llwyr ddibynnol ar argaeledd cyllid.

Rydym yn disgwyl galw mawr am y grant hwn ac yn anffodus, dim ond cyfran o'r ceisiadau a dderbyniwn fyddwn yn gallu eu cefnogi.

**Pa gostau mae Cronfa Trawsffurfio yn fodlon cyfrannu at?**
Gallwch geisio am grant i brynu unrhyw offer neu wasanaethau cyfalaf neu refeniw sydd am eich helpu chi i redeg eich busnes mewn ffordd mwy effeithlon (h.y. lleihau costau rhedeg neu gwneud mwy o elw).

Nid yw'r canlynol yn gymwys:
- Prynu tir ac/neu eiddo domestig
- Eiddo preswyl/domestig ac eithrio llety gwyliau sy'n cwrdd a diffiniad Llywodraeth Cymru o eiddo gwyliau masnachol, sef: Eiddo sydd ar gael i'w osod am o leiaf 252 diwrnod a chael ei osod mewn gwirionedd am o leiaf 182 diwrnod mewn unrhyw gyfnod o 12 mis. Mi fydd angen darparu tystiolaeth bod yr eiddo dan sylw yn cwrdd a'r diffiniad.
- Gwaith atgyweirio, cynnal a chadw a/neu gostau rhedeg busnes cyffredinol
- Prynu offer neu wasanaethau sydd eu hangen er mwyn cydymffurfio â rheoliadau statudol
- Costau staffio
- TAW adferadwy
- Prynu stoc
- Prynu asedau dan gytundebau Hire Purchase (HP), Cytundebau Credyd Estynedig neu Brydles

**Cerbydau**

- Rydym yn fodlon derbyn ceisiadau am:
- Faniau neu geir trydan neu hybrid – grant o 70%
- Faniau neu geir ULEV (yn cynhyrchu dim mwy na 75g o CO2/km) – byddwn yn gwirio hyn ar New or used car : Directgov - Find fuel consumption and emissions information on a new or used car (vehicle-certification-agency.gov.uk) – grant o 70%
- Faniau diesel wedi'u cofrestru ers Medi 2015 ac sydd yn cwrdd a gofynion allbynnau EURO 6 – grant o 50%
- Rhaid i faniau fod yn faniau masnachol 3 sêt a nid cerbydau hamdden neu sy'n gallu cael eu defnyddio at pwrpasau hamdden
- Nid ydym yn fodlon derbyn ceisiadau am faniau sydd wedi'u deillio o gar

Cofiwch, fel gyda pob cais i'r gronfa grant yma, bydd angen i chi egluro sut fydd y cerbyd dan sylw yn arbed arian i'ch busnes, neu yn eich galluogi chi i gynyddu'ch elw, a beth fydd gwerth yr arbediad neu'r cynnydd mewn elw.

**Ffactorau pwysig i'w nodi:**

Dyfynbrisiau

Rhaid i bob eitem unigol gostio o leiaf £300
Rhaid darparu dyfynbrisiau fel a ganlyn:
Eitemau sy'n costio llai na £4,999 – un dyfynbris
Eitemau sy'n costio rhwng £5,000 a £50,000 – tri dyfynbris
Eitemau sy'n costio mwy na £50,000 - Bydd angen mynd allan i dendr ar gyfer pryniannau gwerth mwy na £50,000. Gellir gwneud hyn drwy hysbysebu ar wefan gwerthwchigymru neu drwy hysbysebu yn gyhoeddus ar eich gwefan/platfformau digidol. Dylid cyflwyno tystiolaeth o'r hysbyseb am dender gyda'ch cais.

Mi fydd unrhyw cynnig grant wedi'i seilio ar y pris isaf sy'n cael ei gyflwyno

Prynu gydag arian parod

Ni allwch brynu offer neu nwyddau gydag arian parod

Ôl-weithredu

Arhoswch tan eich bod wedi derbyn cynnig swyddogol o'r grant, ac wedyn ei ddychwelyd yn ôl i ni cyn prynu unrhyw offer neu wasanaethau sy'n rhan o'ch cais. Ni allwn ad-dalu unrhyw wariant sydd wedi'i wneud cyn i ni wneud cynnig swyddogol o'r grant, a'i dderbyn yn ôl gennych chi.

Rheoli Cymhorthdal Awdurdodau Statudol

Mae'r cronfa yma wedi'i chofrestru fel rhan o Gronfa Datblygu Busnes Gwynedd (rhif cofrestru SC10867), yn unol a'r Deddf Rheoli Cymhorthdal (2022). Mi fydd pob grant dros £100,000 yn cael ei gofrestru yn unigol gyda Llywodraeth Cymru fel rhan o'u Rheolau Tryloywder.

Prynu'n Lleol

Er mwyn cefnogi'r cadwyn cyflenwi lleol, rydym yn gofyn i chi ystyried defnyddio cyflenwyr o Wynedd. Ni fydd yr elfen yma yn effeithio ar asesiad eich cais, ond disgwylir i chi egluro pa camau yr ydych wedi cymryd i ddod o hyd i gyflenwr o Wynedd, a'ch rhesymau dros peidio a'i ddefnyddio os ydych yn penderfynu defnyddio cyflenwr arall.

**ADRAN B – PROSES YMGEISIO AM GRANT**

**Cyflwyno Cais**

Mae'n bwysig sicrhau eich bod yn cwblhau eich ffurflen gais yn llawn a'ch bod yn cynnwys yr holl ddogfennau angenrheidiol. Mae'r rhain yn cynnwys:

| |
|---|
| Cynllun busnes manwl – wele'r canllaw am yr isafswm wybodaeth sydd ei angen |
| Rhagolwg ariannol 3 flynedd |
| Mantolen a datganiad elw a cholled am y dair flynedd diwethaf |
| Datganiadau banc y busnes ar gyfer y tri mis diwethaf |
| Cadarnhad o unrhyw ganiatâd perthnasol yn cynnwys gofynion cyfreithiol statudol |
| Holl dyfynbrisiau |
| Tystiolaeth o arian cyfatebol |

Ni allwn ddechrau prosesu'ch cais nes fod yr holl wybodaeth perthnasol wedi'i dderbyn

Byddwn yn gofyn i chi gadarnhau bod angen yr arian grant arnoch h.y. heb y grant, ni fyddai modd gwneud yr hyn sy'n cael ei amlinellu yn eich cais:

- o gwbl
- i'r un raddfa
- o fewn amserlen rhesymol

Gall y Cyngor dynnu cynnig grant yn ôl, neu ad-hawlio arian sydd eisoes wedi'i dalu allan:

- os nad ydych yn defnyddio'r arian, neu'r offer/gwasanaethau y byddwch yn eu prynu, i wneud yr hyn rydych wedi amlinellu yn eich ffurflen gais
- os y byddwn yn canfod fod rywbeth yn eich cais sy'n anghywir
- os oes oedi afresymol wrth i chi symud ymlaen i brynu'r offer/gwasanaeth neu eu rhoi ar waith

**Prosesu Eich Cais**

Ar dderbyn eich cais llawn bydd y Cyngor yn:

- Gwirio bod yr holl fanylion sydd wedi'i ddarparu mewn trefn ac os oes gwybodaeth ar goll byddwn yn cysylltu i ofyn am wybodaeth ychwanegol
- Gwneud gwiriadau a allai gynnwys:
  - Cynnal chwiliad gydag asiantaeth cyfeirio credyd yng nghyswllt eich busnes. Bydd yr asiantaeth yn cadw cofnod o'r chwiliad hwnnw ac efallai y bydd yn rhannu gwybodaeth gydag asiantaethau eraill
  - Gwneud ymholiadau am gyfarwyddwyr cwmnïau gydag asiantaethau cyfeirio Credyd

**Hysbysu o'r Penderfyniad**
Byddwn yn eich hysbysu o'r penderfyniad ar e-bost. Os yn llwyddiannus byddwch yn rhoi gwybod i chi faint o gyllid rydym yn ei gynnig i chi ac unrhyw amodau penodol sy'n gysylltiedig â'r grant. Byddwch hefyd yn derbyn cytundeb Telerau ac Amodau y mae'n rhaid i chi gydymffurfio â nhw. Rhaid arwyddo a dychwelyd y cytundeb cyn pen 14 diwrnod er mwyn derbyn y cynnig grant.

**Amserlen**
Rhaid i ni dderbyn eich cais erbyn Dydd Gwener, Medi 29ain, 2023. Byddem wedyn yn asesu'ch cais a bydd gennych chi dim mwy na wythnos i ddarparu unrhyw wybodaeth coll. Cyn belled a'ch bod wedi darparu'r holl wybodaeth mewn pryd, byddem yn asesu ceisiadau o Hydref 6ed, 2023, gan geisio roi ateb i chi o fewn 8 wythnos.

Rhaid I'r prosiect cyfan fod wedi'i gwblhau, a'r arian wedi'i hawlio gan Cyngor Gwynedd erbyn 30 Medi 2024. Mae hyn, felly yn roi ffenest gweithredu o tua 10 mis i chi. Nid oes modd i ni ad-dalu unrhyw hawliadau sydd yn cael eu derbyn ar ôl y dyddiad yma.

**Gwneud Hawliad**
Wrth hawlio grant bydd angen i chi ddarparu prawf o'r gwariant. Mae hyn yn cynnwys yr holl anfonebau a derbyniadau (peidiwch a chynnwys unrhyw wariant gafodd ei wneud cyn i chi dychwelyd y cynnig grant ffurfiol). Bydd y Cyngor hefyd angen copïau o ddatganiadau banc yn dangos taliadau'n mynd allan o gyfrifon y cwmni. Os ydych yn talu am unrhyw beth gyda cherdyn credyd neu debyg, bydd angen i chi ddangos tystiolaeth eich bod wedi talu'r cwmni credyd yn ôl yn llawn.

Cofiwch – peidiwch a thalu am unrhyw offer neu wasanaeth sydd ynghlwm a'r grant gydag arian parod (cash).

Bydd y Cyngor angen sicrhau bod yr arian grant wedi'i ddefnyddio i dalu am yr offer a'r gwasanaethau cywir, a'u bod y cael eu defnyddio mewn ffordd sy'n cyd-fynd â thelerau ac amodau'r grant, ac unrhyw amodau ychwanegol os yn berthnasol. Gall hwn gynnwys archwilio'r gwaith, ymweld â'ch busnes, neu unrhyw ffordd priodol arall. Unwaith y bydd y Cyngor yn fodlon bod y grant wedi'i wario'n briodol, bydd y Cyngor yn rhyddhau'r cyllid i gyfrif banc eich busnes drwy daliad BACS.

Ni fydd ceisiadau am newid eitemau cymwys cymeradwy yn cael eu derbyn – ac eithrio yn achos newidiadau tebyg am debyg megis newid brand neu gyflenwr. Ni fyddwn yn cwrdd ag unrhyw costau ychwanegol sydd ynghlwm a unrhyw newidiadau tebyg am debyg.

**Monitro**
Hyd at 2035, gall y Cyngor, neu unrhyw un ar ran y Cyngor, ymweld â'ch eiddo i gynnal archwiliad i fonitro'r busnes a'r offer neu wasanaethau y wnaethoch chi brynu gyda'r grant.

Os yw'r offer a gafodd ei brynu gyda'r grant yn dod i ddiwedd ei oes o fewn y cyfnod yma, cysylltwch â ni i roi wybod. Efallai y byddwn angen gweld tystiolaeth o hyn.

Os ydych yn bwriadu uwchraddio'r offer o fewn y cyfnod yma, cysylltwch â ni – efallai y byddwn eisiau gweld tystiolaeth eich bod wedi prynu offer newydd yn ei le.

Os ydych chi wedi adrodd eich bod wedi creu swyddi, bydd y Cyngor angen tystiolaeth o'r cyflogaeth, gall hyn gynnwys:

- Cofnodion cyflogres (cyn ac ar ôl y dyfarniad)
- Cytundeb cyflogaeth
- Slip tâl cyntaf wedi ei ddyddio
- Cofnod gwasanaeth ar-lein PAYE HMRC
- Tystysgrif P60

Nid oes angen cynnwys enwau unigolion ar gofnodion cyflogaeth – gallwch chi eu cuddio neu'u dileu.

Mewn achosion eraill, bydd yn rhaid i'r ymgeisydd un ai ddangos tystiolaeth bod y dyfarniad grant wedi cynyddu trosiant y busnes neu ddangos sut mae wedi effeithio ar y busnes.

**ADRAN C – CRYNODEB O'R PRIF AMODAU GRANT (CEWCH RESTR LLAWN FEL RHAN O UNRHYW CYNNIG SWYDDOGOL)**

1. Dylai bob busnes fod yn hyfyw yn ariannol.
2. Dylai'r busnes gydymffurfio gyda'r holl reoliadau priodol, holl bolisïau gorfodaeth a safonau gwasanaeth sy'n berthnasol i'w sector busnes, gan gynnwys bod wedi cofrestru gyda'r Cyllid a Thollau ei Mawrhydi (HMRC) at ddibenion talu treth.
3. Mae'n rhaid i bob gwaith proffesiynol (e.e. trydanol) gael ei wneud gan gontractwyr cymwys.
4. Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i gysylltu ag unrhyw un o'r busnesau sy'n cyflwyno dyfynbrisiau mewn cyswllt â'ch cais os oes angen eglurder pellach.
5. Ni fyddwch yn derbyn cyllid ar gyfer unrhyw ran o'r gwaith rydych chi neu'ch busnes wedi ei gyflawni eich hun (boed y busnes mewn perchnogaeth lawn neu'n rhannol).
6. Mae'n rhaid hysbysu'r Cyngor o unrhyw gyswllt personol, teuluol neu fusnes rhyngoch chi/eich asiant ac unrhyw gyflenwr neu gontractwr.
7. Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau eich bod wedi cael neu wedi cydymffurfio â phob caniatâd cynllunio ac unrhyw ganiatâd statudol perthnasol arall cyn i chi gyflwyno'ch cais. Rhaid i chi ddarparu tystiolaeth ddogfennol o hyn. Rhaid i'ch busnes neu'r gwaith rydych yn gyflawni hefyd gydymffurfio ag unrhyw drwyddedau/caniatâd/gofynion perthnasol eraill e.e. Iechyd a Diogelwch, ac ni ddylid defnyddio'r offer, na chaniatáu defnydd o'r offer, yn groes i'r gyfraith nag unrhyw reoliadau/is-ddeddfau sydd mewn grym ar y pryd.
8. Wrth roi grant i chi, nid yw'r Cyngor yn cymeradwyo unrhyw beth tu hwnt i brynu'r offer neu gwasanaeth(au) sydd yn y cais.
9. Ni ddylid dechrau unrhyw waith ar unrhyw adeilad nes eich bod wedi cael pob cymeradwyaeth neu ganiatâd sy'n angenrheidiol.
10. Ni ellir talu arian am waith sydd eisoes wedi dechrau yn barod nac am unrhyw offer sydd wedi'i brynu yn barod
11. Ni fydd y Cyngor yn roi grantiau i ymgeiswyr sydd â dyledion sylweddol i unrhyw adran o'r Cyngor.
12. Gall y Cyngor wirio os oes Dyfarniad y Llys Sirol yn eich erbyn.
13. Pan fydd prosiect yn golygu gwneud gwaith adnewyddu neu addasu adeilad sydd ar brydles, mae'n rhaid i weddill oes y brydles fod yn o leiaf 7 mlynedd ar ddiwrnod derbyn y cais gan y Cyngor. Byddwn hefyd angen tystiolaeth o ganiatâd y landlord.
14. Mae'n rhaid i unrhyw deunyddiau neu wasanaethau fydd yn cael eu gweld gan eraill sydd wedi derbyn arian grant fod yn ddwyieithog (Cymraeg/Saesneg).
15. Rydych yn gyfrifol am sicrhau bod unrhyw drethi, asesiadau, taliadau neu unrhyw wariant arall sy'n daladwy yng nghyswllt defnyddio'r offer neu wasanaethau sy'n cael eu prynu gyda'r grant.
16. Mae'n rhaid i chi ar bob achlysur rhesymol roi caniatâd i asiant awdurdodedig y Cyngor i ddod i mewn i'r eiddo i archwilio stad a chyflwr yr offer ac unrhyw lyfrau trafodion ariannol, cofnodion neu ddogfennau sy'n berthnasol i ddefnydd yr offer neu'r gwasanaeth sydd wedi'u prynu gyda'r grant.
17. Ni ddylech aseinio, diddymu, is-osod na chael gwared ar berchnogaeth o'r offer yn ei gyfanrwydd nac unrhyw ran ohono.

18. Rhaid i chi yswirio'r offer sydd wedi'i brynu gyda'r grant, ynghyd a'r Prosiect cyfan, parhau i'w yswirio yn erbyn colled neu ddifrod hyd at werth llawn ei amnewid. Os bydd difrod yn digwydd yn ystod cyfnod cytundeb y grant ac nad yw ym marn yr yswiriwr yn economaidd i wneud yn iawn am ddifrod o'r fath, bydd yr holl arian yswiriant yn cael ei defnyddio i wneud yn iawn am y golled neu'r difrod. Bydd yn rhaid talu'r holl bremiymau a dylech ddarparu'r derbyniadau i'r Cyngor os gofynnir amdanynt. Dylech wneud popeth angenrheidiol i gadw'r gorchudd yswiriant yn gwbl weithredol ac i beidio â gwneud unrhyw beth a fyddai'n annilysu'r yswiriant

19. Bydd y grant yn cael ei dalu pan fydd y:

- Prosiect sy'n cynnwys gwaith adeiladu wedi cael ei gwblhau'n llawn a bod ardystiad gan Gyfadran Rheolaeth Adeiladu'r Cyngor (neu debyg) bod y gwaith yn dderbyniol.
- Dogfennau cefnogol perthnasol wedi cael eu cyflwyno i'r Cyngor.

20. Os yn creu neu ddiogelu swyddi, y diffiniad o 'swydd' yw unrhyw swydd llawn amser yn y busnes ym mha bynnag rinwedd, swydd hunangyflogedig newydd neu swyddi sydd wedi'u creu gan fusnesau sy'n symud i mewn i'r sir. Mae 'llawn amser' yn golygu o leiaf 30 awr yr wythnos. Mae'n derbyniol cyfri dwy swydd ran-amser sydd at ei gilydd yn cynnig gyfanswm o 30 awr yr wythnos fel un swydd lawn amser.

21. Mae'n rhaid i fusnesau fasnachu am isafswm o 30 awr yr wythnos i fod yn gymwys.

22. Mae'n rhaid i chi gytuno i beidio a gwneud, gwrthod gwneud na dioddef gwneud, unrhyw beth gall olygu fod yr offer yn cael ei fforffedu neu adfeddiannu neu y gallai beri risg i hynny ddigwydd.

23. Mae'n dderbyniol prynu peiriannau, peirianwaith neu offer ail-law ar yr amod bod y pris yn deg ac nad yw wedi ei brynu'n wreiddiol dan gynllun a gyllidwyd gan grant arall.

24. Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i roi cyhoeddusrwydd o ddyfarnu'r grant.

25. Dylai unrhyw gyhoeddusrwydd sy'n cael ei drefnu gennych sy'n ymwneud â derbyn y grant nodi cefnogaeth ariannol y cynllun Cyngor. Mae hyn hefyd yn berthnasol i unrhyw deunyddiau marchnata/gwefannau. Caiff ganllawiau cyhoeddusrwydd llawn fel rhan o unrhyw cynnig swyddogol o nawdd.

26. Unwaith y bydd y grant wedi cael ei gymeradwyo ni allwch gynnwys unrhyw eitemau ychwanegol yn yr hawliad oni bai fod hyn wedi'i gytuno gan y Cyngor.

27. Os yw cyfanswm y gwariant yn llai na'r hyn oedd wedi'i ragweld, bydd y dyfarniad grant yn cael ei ostwng pro rata.

28. Gellir hawlio'r TAW fel rhan o gyfanswm y grant os nad yw'r ymgeisydd wedi cofrestru at ddibenion TAW.

29. Mae'n rhaid hysbysu'r Cyngor yn ysgrifenedig os oes unrhyw newid i'r ffordd y byddwch yn defnyddio'r offer neu wasanaeth sydd wedi eu prynu gyda'r grant.

30. Hyd 2035, gall y Cyngor yn ymweld â'ch eiddo er mwyn cynnal archwiliad monitro'r ased(au) busnes a gyllidwyd gan y grant.

31. Mae Cyngor Gwynedd yn dal disgresiwn absoliwt o ran telerau, cymhwysedd a phenderfyniadau dyfarniadau grant a hefyd yn cadw'r hawl i ddiwygio'r meini prawf ar unrhyw adeg.

32. Rhaid i bob ymgeisydd llwyddiannus gwblhau asesiad Iaith Comisiynydd y Gymraeg Busnesau ac elusennau (comisiynyddygymraeg.cymru) ac ymrwymo i weithio tuag at y Cynnig Cymraeg Cynnig Cymraeg

33. Rhaid i bob ymgeisydd llwyddiannus ymrwymo i weithio tuag at dalu'r cyflog byw i weithwyr dros 18 oed erbyn Rhagfyr 2024. Mae manylion y cynllun ar gael yma: https://www.livingwage.org.uk

34. Rhaid i bob ymgeisydd gadw at egwyddorion Cynllun Economi Ymweld Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri 2035 | Eryri (ymweldageryri.info).

Busnes@
gwynedd.llyw.cymru

CYNGOR
GWYNEDD